



Social Co-operation Forum
Fforwm Cydweithredu Cymdeithasol

Mentrau cydweithredol yn darparu gofal a chymorth cymdeithasol

Pam yw'r 'Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)' yn hyrwyddo defnydd o fentrau cydweithredol?

Mae cymdeithas yng Nghymru a thu hwnt yn wynebu heriau a chyfleoedd mawr, yn cynnwys cynnydd yn nifer y bobl sydd angen cymorth a phrinder cyllid cyhoeddus. Dyna gyd-destun y Ddeddf newydd.

Seiliwyd y Ddeddf ar egwyddorion:

- **Llais a Rheolaeth**
- **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar**
- **Llesiant**
- **Cyd-gynhyrchu**

Mae'r linciau ar ddiwedd y ddogfen hon yn dangos sut mae'r uchod yn gweddu ag egwyddorion mentrau cydweithredol.

Yn y cyd-destun hwnnw mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r gwerth ychwanegol dylid disgwyl gan ddarparwyr gofal a chymorth cymdeithasol, a gellir gweld sut allai mentrau cydweithredol, o'u natur, ddiwallu'r anghenion hynny.

Asesir darparwyr ar sail:

- Effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- Er lles cymdeithas
- Modelau newydd – addasu i anghenion y boblogaeth
- Cyd-gynhyrchu
- Cynyddu cyfranogiad a chyfalaf cymdeithasol
- Darparu grym a pherchnogaeth wirioneddol

- Gwella iechyd a llesiant
- Cymunedau cryfach a chydlynol
- Gwasanaethau dibynadwy ac effeithiol
- Cynladwyedd a gwerth am yr arian.

Nod polisiau cyhoeddus Cymreig yw sicrhau darpariaeth ehangach wrth gynyddu perchnogaeth cymunedau o gyrff cydweithredol.

Mae profiad Cymru yn y gorffennol wedi dangos sut allwn ddefnyddio talentau ac adnoddau ein cymunedau er gweithredu newid yn y maes.

● **Sut mae'r Ddeddf yn hyrwyddo datblygiad y modelau cymunedol amgen hyn?**

O dan y Ddeddf rhaid i awdurdodau lleol hyrwyddo datblygiad o fentrau cymdeithasol a chydweithredol, gwasanaethau dan arweiniad defnyddwyr a modelau trydydd sector er darparu gwasanaethau gofal, cymorth ac atal.

Mae hynny'n golygu bod rhaid i awdurdodau lleol fabwysiadu dulliau rhagweithiol wrth gynllunio a darparu modelau gwasanaeth er lles pobl leol, gan ymateb i asesiad poblogaeth y mae'n rhaid iddynt gynnal gyda byrddau iechyd lleol. Mae pwyslais ar ddatblygu gwasanaethau i helpu ac awdurdodi pobl yn gynnar yn y broses pan fyddant angen rhywfaint o help.

● **Mentrau cydweithredol - mathau?**

- 1. Mentrau gweithwyr:** Eu nod yw darparu gwaith ar gyfer yr aelodau wrth gynnal menter ar y cyd. Yr aelodau sy'n berchen 100% o'r mentrau hyn.
- 2. Mentrau defnyddwyr:** Darparu nwyddau a gwasanaethau at ddefnydd personol aelodau (cwsmeriaid/defnyddwyr).
- 3. Mentrau aml-randdeiliaid:** Aelodaeth yn cynnwys gwahanol gategoriâu o aelodau sy'n rhannu diddordeb cyffredin yn y corff. Yn aml mae'r aelodau yn gymysgedd o ddefnyddwyr a gweithwyr.
- 4. Mentrau cynhyrchwyr:** Mentrau cydweithredol gyda'u haelodau yn fusnesau a allai elwa o gydweithredu ar rai elfennau o'u gwaith, er enghraifft ffermwyr yn cydweithio i farchnata cynnyrch. Disgrifir hefyd fel co-ops eilradd a chonsortia cydweithredol.

Beth yw mentrau cydweithredol cymdeithasol?

Mae'r mentrau hyn yn darparu gofal a chymorth cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n debyg o wynebu eithrio o fewn cymdeithas ac yn y gweithle.

Sefydlwyd am y tro cyntaf yn yr Eidal yn gynnar yn y 1970au gan ddarparwyr gofal a theuluoedd er mwyn darparu gwasanaethau ar gyfer pobl anabl nad oedd ar gael gan y wladwriaeth. Erbyn heddiw, mae eu trosiant yn yr Eidal dros €1.3 biliwn, sef 13% o wariant yr Eidal ar wasanaethau cymdeithasol. Yn Bologna, darperir dros 85% o wasanaethau cymdeithasol y ddinas drwy fentrau cymdeithasol. Ar draws y wlad honno, mae llawer o fentrau bach wedi cydweithio er mwyn negodi prisiau gwell ond cynnal eu hannibyniaeth ar yr un pryd.

Mae sawl enghraifft o fentrau gweithwyr yn darparu gofal a chymorth cymdeithasol ardderchog ac, fel mentrau cydweithredol, byddant yn cynnig amrediad o fuddion cymdeithasol eraill wrth ddilyn egwyddorion cydweithredol. Fodd bynnag, yng Nghymru mae diddordeb penodol mewn helpu i sefydlu mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr neu aml-randdeiliaid sy'n gwarantu llais cryf ar gyfer yr aelodau.

Beth yw mentrau cydweithredol dan arweiniad defnyddwyr?

Yn achos y mentrau hyn, y defnyddwyr yw'r aelodau sy'n rheoli ar sail o leiaf 51% o'r pleidleisiau. Gallant brynu cymorth allanol ond y mentrau, yn hytrach na'r gweithwyr proffesiynol, sy'n rheoli. Gall y defnyddwyr fod yn berchen 100% o'r busnes, neu gallant gynnwys y gweithwyr neu gefnogwyr cymunedol fel rhan o fenter aml-randdeiliaid.

Datblygwyd mentrau dan arweiniad defnyddwyr yn Sweden a'r Eidal, ac erbyn hyn mae rhai projectau peilot cyffrous yng Nghymru.

Dull gweithredu mentrau cymdeithasol?

Cryfder mentrau cydweithredol yw'r aelodau. Rhaid cael strwythur cyfreithiol, ond yr athroniaeth a'r gwerthoedd yw'r pethau allweddol.

Er bod rhai mentrau llai yn gweithio fel mentrau cyfun, gyda phob aelod yn cymryd yr holl benderfyniadau, bydd y rhan fwyaf o'r mentrau mwy yn dirprwyo'r prif benderfyniadau i fwrdd etholedig sy'n goruchwyllo gwaith y prif weithredwr a'r gweithwyr wrth redeg y busnes. Etholir y bwrdd bob blwyddyn gan yr aelodau ac mae'n atebol iddynt.

Gellir dewis o blith nifer fawr o strwythurau cyfreithiol, wedi'u haddasu

mewn ymateb i anghenion gwahanol grwpiau, ac awgrymir cael cyngor arbenigol er mwyn sefydlu'r strwythur iawn. Mae rhai'n gwbl nid-er-elw, gydag eraill yn caniatáu rhannu elw rhesymol rhwng yr aelodau, ond bydd pob un yn rhoi blaenoriaeth i'w dibenion cymdeithasol.

● Adnoddau pellach

www.ica.coop/en/whats-co-op/co-operative-identity-values-principles

www.cgymru.org.uk/adnoddau-dysgu-1/egwyddorion-y-ddeddf/

www.uk.coop/developing-co-ops/select-structure-tool

www.uk.coop/developing-co-ops/model-governing-documents

www.arferda.cymru/co-production-catalogue-from-wales